Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Cynllun busnes 2017-20

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2017.

Cynnwys

Rhagair **4**

Yr hyn a wnawn **6**

Cynllun busnes 2017-2020 ..... **6**

Cyflawni ein hamcanion strategol ..... Error! Bookmark not defined.

Adrodd ar gynnydd **9**

Trosolwg tair blynedd 2017-2020 ..... Error! Bookmark not defined.

Cynllun blynyddol 2017/18: prif raglenni gwaith **15**

Rhagair

Mae ein strategaeth ar gyfer 2017-20 yn egluro'r ffyrdd y gallwn gefnogi a gwella gofal diogel ac effeithiol mewn fferylliaeth a chynnal ffydd yn y maes

Mae'r ddogfen hon, ein cynllun busnes cyntaf i ymdrin â chyfnod tair blynedd, yn egluro pa raglenni gwaith y byddwn yn eu blaenoriaethu dros y tair blynedd nesaf, er mwyn ein helpu i'w cyflawni.

Mae'r cynllun uchelgeisiol hwn yn adlewyrchu ein strategaeth uchelgeisiol. Mae'n amlinellu ein chwe phrif raglen waith fydd yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol a'n swyddogaethau rheoleiddio. Mae'r cynllun busnes hefyd yn cynnwys cynllun blynyddol manwl ar gyfer ein gwaith ym mlwyddyn ariannol 2017/18.

Mae ein strategaeth a'n cynllun busnes wedi eu datblygu mewn cyfnod o newid sylweddol ac ansicrwydd o fewn fferylliaeth a rheoleiddio, ac yn y cefndir gwleidyddol ehangach.

Gallai datblygiadau o'r tu allan, yn cynnwys polisïau llywodraethol ar fferylliaeth, diwygiadau i reoleiddio iechyd, ail refferendwm arfaethedig ar annibyniaeth i'r Alban, a Brexit, effeithio'n fawr ar ein gwaith o fewn y tair blynedd nesaf a'r tu hwnt.

Mae rôl fferylliaeth a gweithwyr fferyllol wrth ddarparu gofal a helpu pobl i gynnal a gwella eu hiechyd hefyd yn datblygu'n gyflym ymhob un o dair gwlad Prydain. Rydym yn cydnabod y bydd disgwyliadau uwch ar fferyllfeydd a thimau fferyllol yn y dyfodol ac y bydd pwysau cynyddol ar adnoddau ledled y maes gofal iechyd. Mae gennym rôl bwysig wrth helpu i sicrhau y bydd gan y tîm fferyllol y wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau y bydd arnynt eu hangen i ymateb yn hyderus i'r newidiadau a'r heriau fydd yn eu hwynebu. Mae'n bwysig ein bod hefyd yn helpu perchnogion fferyllfeydd i greu a chynnal amgylchedd y gall gweithwyr fferyllol proffesiynol ymddwyn yn broffesiynol ynddo a darparu gofal sydd â phobl yn ganolog iddo.

O fewn y cyd-destun hwn o newid ac ansicrwydd mae angen i ni sicrhau ein bod yn parhau i fod yn hyblyg tra hefyd yn dal i sicrhau ein bod yn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio yn effeithiol er mwyn diogelu'r cyhoedd a chynnal eu ffydd mewn fferylliaeth. Rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl y bydd gofyn i ni addasu ein cynlluniau wrth ymateb i'r newidiadau hyn, a byddwn yn adrodd am y newidiadau hyn i'n cyngor llywodraethu.

Fel y nodir yn y cynllun hwn, rydym eisoes yn paratoi i wneud newidiadau sylweddol i'n dull gweithio er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu newidiadau o'r tu allan a'n bod yn rheoleiddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon bosibl.

Bwriadwn barhau i fonitro ein costau gweithredol a gwella effeithiolrwydd ein dulliau

gweithio er mwyn ein galluogi i gadw ffioedd ar y lefelau presennol yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 a chyfyngu ar unrhyw godiadau yn y dyfodol. Byddwn yn buddsoddi mewn rhaglen fawr i drawsffurfio'r ffordd y gweithredwn ein gwasanaethau, gan ddefnyddio'r cronfeydd sydd gennym wrth gefn. Dylai'r rhaglen hon greu arbedion a fydd yn ein galluogi i gyfyngu ar godiadau i'r ffioedd yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i adolygu lefelau a dyraniad ffioedd yn flynyddol.

Rydym yn disgwyl y byddwn yn gweithio mewn ffordd wahanol iawn ymhen tair blynedd. Credwn y bydd y newidiadau a wnawn yn ein galluogi i chwarae rôl mwy o lawer yn y gwaith o wella ansawdd fferylliaeth ac annog proffesiynoldeb a gofal sydd â phobl yn ganolog iddo. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, y bobl sy'n gweithio mewn fferylliaeth, perchnogion fferyllfeydd ac eraill, i sicrhau y gall pawb deimlo'n hyderus eu bod yn derbyn gofal fferyllol diogel ac effeithiol.

Nigel Clarke
Cadeirydd

Duncan Rudkin
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Yr hyn a wnawn

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol gan fferylliaeth, ac mae ganddynt hyder ynddi, oherwydd gwybodaeth, ymddygiad ac agwedd y bobl sy'n gweithio yn y maes

Mae gennym ni rôl bwysig i'w chyflawni. Rydym yn:

- Hybu proffesiynoldeb mewn fferylliaeth
- Sicrhau ansawdd fferylliaeth, gan gynnwys diogelwch
- Cefnogi gwelliant mewn fferylliaeth

Gwnawn hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- cofrestru a rhestru'n gyhoeddus y gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r fferyllfeydd sy'n darparu gofal i bobl ac i'r cyhoedd
- gosod a hybu'r safonau y mae angen i bobl eu cyrraedd cyn cael eu cynnwys ar ein cofrestr ac aros arni
- derbyn sicrwydd, mewn nifer o ffyrdd, bod gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd yn parhau i gyrraedd ein safonau – a gweithredu'n briodol pan na wnânt
- rhannu gydag eraill yr hyn a ddysgwn drwy'n gwaith
- ymchwilio i ofidiau am y bobl neu'r fferyllfeydd a gofrestrwn a gweithredu mewn ffordd gymesur er mwyn diogelu'r cyhoedd a chynnal ein safonau

Cynllun busnes 2017-2020

Mae cynllun busnes 2017-20 yn egluro ein prif flaenoriaethau dros y tair blynedd nesaf, i'n helpu i gyflawni'r amcanion strategol sydd yn ein cynllun strategol ar gyfer 2017-20

Gellir crynhoi cynlluniau'r CFfC ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2020 i chwe phrif raglen waith a nifer o feysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt wrth gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio.

Dyma nhw:

- Datblygu ein dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig, er mwyn rhoi sicrwydd ac annog gwelliant
- Hybu proffesiynoldeb drwy'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â nhw
- Rhoi sicrwydd pellach i'r cyhoedd bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd y safonau
- Gosod safonau hyfforddiant ac addysg cychwynnol fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol a sicrhau eu hansawdd
- Datblygu ein strategaeth data a mewnwelediad
- Trawsffurfio ein gwasanaethau a'n dulliau gweithio

Yn rhan o'n gwaith beunyddiol byddwn yn parhau i wella'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio.

Cyflawni ein hamcanion strategol



Adrodd ar gynnydd

Gyda dull cynllunio newydd ar waith, rydym yn newid y ffordd rydym yn adrodd i'n cyngor llywodraethu

Bydd yr 'adroddiad busnes' newydd yn cynnwys:

- ein perfformiad o ran cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio
- adroddiad naratif ar y cynllun blynyddol hyd yn hyn
- trosolwg dros iechyd y sefydliad, gan gynnwys adrannau ar gyllid ac adnoddau

Bydd y cyntaf o'r adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r cyngor ym mis Medi 2017, yn adrodd ar chwarter Ebrill-Mehefin 2017.

Bydd y drefn adrodd newydd hefyd yn cynnwys adroddiad trosolwg blynyddol, a bydd y cyntaf yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2018, yn rhan o adroddiad blynyddol 2017/18.

Gallai pob un o'r rhaglenni gwaith, a'r datblygiadau o fewn ein gwaith o gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio, greu risgiau a chyfleoedd o ran ein hagenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CAC).

Yn unol â datganiad CAC y cyngor, mae'r gwaith a wnawn i sicrhau ein bod yn ateb gofynion ein dyletswyddau o fewn y sector gyhoeddus a'n hagenda CAC ein hunain, wedi ei wreiddio o fewn ein prosesau cynllunio. Bydd ein timau yn ymgymryd ag asesiadau effaith ar gydraddoldeb a chreu cynlluniau gweithredu er cymorth i unrhyw feysydd y gallai fod cyfleoedd datblygu o ran CAC ynddyn nhw.

Trosolwg tair blynedd 2017-2020

Datblygu ein dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig, er mwyn rhoi sicrwydd ac annog gwelliant

Rydym wedi parhau i ddatblygu a mireinio ein dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig. Dros y tair blynedd nesaf, bwriadwn ddatblygu ein dull rheoleiddio ymhellach er mwyn gwella ein gallu i ddarparu sicrwydd bod fferyllfeydd yn rhoi gofal diogel ac effeithiol.

Rydym yn dal i ganolbwyntio ar fod yn rheoleiddiwr cymesur, gyda'n gwaith wedi ei lywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael, a byddwn yn ystyried sut i wneud ein trefniadau arolygu'n fwy hyblyg ac ymatebol, a sut i wneud yn fawr o'r wybodaeth a gasglwn wrth wneud ein gwaith rheoleiddio.

Byddwn hefyd yn datblygu'r ffordd a rannwn y wybodaeth hon yn eang gyda rhanddeiliaid er mwyn hyrwyddo dysgu a gwelliant ledled y sector. Byddwn yn trafod y newidiadau hyn, a'u gweithrediad, gyda'n rhanddeilaid.

I gefnogi'r datblygiad ar ein model rheoleiddio, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd i ddrafftio Rheolau (is-ddeddfwriaeth) i greu fframwaith ar gyfer y pwerau newydd a ddaw i rym yn y dyfodol agos (yn dilyn cychwyn Gorchymyn Fferylliaeth (Safonau Lleoliadau, Rhwymedigaethau gwybodaeth, ac ati) 2016. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ein pwerau gorfodi ac ystyriaeth ynghylch dulliau cyhoeddi ein harolygiadau.

Rydym yn derbyn y gall newidiadau deddfwriaethol fod yn broses hirach na'r disgwyl, yn sgil argaeledd adnoddau'r llywodraeth a ffactorau eraill, ac felly byddwn hefyd yn ystyried pa newidiadau y gallem o bosibl eu cyflwyno cyn i'r newidiadau deddfwriaethol ddod i rym.

Yn hwyrach yn 2017-2020 mae'n fwriad gennym ystyried sut y gallwn gael sicrwydd, fel rheoleiddiwr, ynghylch hyfforddiant y tîm fferyllol ehangach nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru gyda ni.

Hybu proffesiynoldeb drwy'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â nhw

Yn 2016 fe ymgynghoron ni ar ein safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol (y safonau), sydd yn canolbwyntio ar hybu gofal â phobl yn ganolog iddo. Credwn mai'r penderfyniadau a wneir o ddydd i ddydd gan fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sy'n cyfrannu yn y ffordd fwyaf positif a sylweddol at ddiogelwch cleifion ac ansawdd gofal. Daw'r safonau hyn i rym yn 2017.

Yn ystod cyfnod y cynllun busnes hwn byddwn yn gweithio gyda fferyllwyr a thechnegwyr

fferyllol i wreiddio'r safonau yn eu gwaith. I'w helpu yn hyn o beth, byddwn yn hyrwyddo prif themâu'r safonau, ac yn adolygu, diweddaru a chyhoeddi'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r safonau hybu proffesiynoldeb wrth ddarparu gofal â phobl yn ganolog iddo.

Byddwn yn parhau i hybu ymwybyddiaeth am gyfrifoldeb perchnogion fferyllfeydd i annog a galluogi ffyniant proffesiynoldeb eu staff fferyllol.

Ym mis Rhagfyr 2016, lansiwyd ymgynghoriad gennym ar grefydd, gwerthoedd personol a chredo mewn fferylliaeth. Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun hwn, byddwn yn adolygu'r ymatebion ac yn gofyn i'n cyngor benderfynu a oes angen i ni newid yr hyn a ddywedwn ar y mater hwn yn y safonau a'r canllawiau.

Rhoi sicrwydd pellach i'r cyhoedd bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd y safonau

Byddwn yn parhau i ddatblygu trefniadau newydd i ddarparu sicrwydd pellach bod fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn cyrraedd safonau gweithio'n ddiogel ac yn effeithiol gydol eu gyrfa.

Rydym yn gwneud y newidiadau hyn am ei bod yn amlwg bod y cyhoedd a gweithwyr fferyllol yn disgwyl rhagor o sicrwydd ac am ein bod wedi nodi nifer o welliannau i'n dull presennol a fydd yn gwneud y gwaith rheoleiddio'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Yn sgil ein peilot, a'r gwerthusiad arno, yn 2016, byddwn yn gofyn i'n cyngor gymeradwyo dogfen ymgynghori ddrafft er mwyn i ni allu clywed barn y sector a'r cyhoedd am y newidiadau a gynigiwn, a'u heffaith.

Byddwn yn ystyried yr hyn a glywn drwy'r rhaglen gyfathrebu ac ymglymu helaeth a fwriedir ar gyfer yr ymgynghoriad, er mwyn i ni gyflwyno newidiadau pan yn briodol.

Byddwn wedyn yn cyflwyno'r cynigion i'r cyngor i'w cymeradwyo ac yn cyhoeddi cynllun manwl ar gyfer cyflwyno'r newidiadau fesul cam yn 2018 a 2019.

Gosod safonau hyfforddiant ac addysg cychwynnol fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol a sicrhau eu hansawdd

Mae gan y tîm fferyllol rôl hollbwysig wrth ddarparu gofal a helpu pobl i gynnal a gwella eu hiechyd, diogelwch a lles. Mae eu proffesiynoldeb nhw yn greiddiol i'r ymdrech i gadw ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Rhaid i hyfforddiant ac addysg fod yn addas at eu diben i roi sicrwydd i ni bod gan y tîm fferyllol y wybodaeth a'r proffesiynoldeb sydd eu hangen i allu darparu gofal â phobl yn ganolog iddo o'r dechrau'n deg.

Yn gynnar yn 2017, lansiwyd ymgynghoriad gennym ar safonau wedi eu diweddaru ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol technegwyr fferyllol. Bydd y cyngor yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a byddant yn cael eu lansio yn hwyrach yn 2017/18, yn amodol ar unrhyw newidiadau sylweddol yn dilyn yr ymgynghoriad.

Hefyd, yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun hwn, mae'n fwriad gennym ymgynghori ar newidiadau i safonau hyfforddiant ac addysg fferyllwyr. Y bwriad yw lansio'r rhain yn ystod 2018/19, wedi eu llywio gan ganlyniadau'r ymgynghoriad.

Ochr yn ochr â hyn, rydym yn bwriadu cyhoeddi papur trafod ar anghenion addysg a hyfforddiant

diwygiedig ar gyfer fferyllwyr wedi eu hyfforddi y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, i lywio ein gwaith yn y maes hwn.

Byddwn hefyd yn gweithio ar safonau diwygiedig drafft ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol ac yn ystyried dulliau achredu newydd i gefnogi'r safonau newydd ymhob rhan o'n gweithio rheoleiddio addysg.

Bydd angen i ni ystyried effaith Brexit ar gofrestru ac adnewyddu cofrestriadau gweithwyr fferyllol sydd wedi cymhwyso yn yr UE a byddwn yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill wrth i fanylion gael eu cyhoeddi gan y llywodraeth.

Datblygu ein strategaeth data a mewnwelediad

Yn 2016, daethom â'n swyddogaethau data ac ymchwil at ei gilydd, i greu tîm newydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu mewnwelediad. Credwn y gall yr hyn a ddysgwn drwy'n gwaith chwarae rôl bwysig yn y gwaith o ddarparu sicrwydd ynghylch diogelwch gwasanaethau fferyllol a hybu gwelliant yn y sector.

Yn 2017/18, byddwn yn symud yn ein blaen gyda'r cynlluniau i ddatblygu ein gallu technolegol i ddarparu mewnwelediad. Byddwn yn gweithredu warws data newydd, i ddod â data o wahanol swyddogaethau rheoleiddio ac o ffynonellau allanol at ei gilydd. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn teclynnau dadansoddi er mwyn ein helpu i ddeall y data yn well.

Byddwn yn parhau â'r gwaith o wella ansawdd a chysondeb y data sydd gennym, ac yn unol â'n hymrwymiad at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn parhau i annog gweithwyr fferyllol proffesiynol i rannu data am eu nodweddion gwarchodedig gyda ni.

Byddwn yn defnyddio'r data hwn i ddeall natur ein cofrestri yn well ac i wella datblygiad ein hasesiadau effaith ar gydraddoldeb.

Wrth i ni symud at gyhoeddi ein hadroddiadau arolygu, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddeall sut y byddan nhw'n defnyddio'r wybodaeth hon yn ymarferol, a dyluniadau fydd yn galluogi mynediad haws i'r wybodaeth sydd gennym. Byddwn hefyd yn arwain y gwaith ar ddatblygu grŵp mewnwelediad rhyng-reoleiddiol, er mwyn sicrhau bod arfer gorau yn cael ei rannu o fewn y sector.

Byddwn hefyd yn gorffen ein hymchwil gychwynnol i ffactorau sy'n effeithio ar ansawdd mewn fferylliaeth, ac yn defnyddio canlyniadau'r ymchwil i'n helpu i bennu'r blaenoriaethau ymchwil dros y tair blynedd nesaf.

Trawsffurfio ein gwasanaethau a'n dulliau gweithio

Yn 2016, yn rhan o'n hamcan strategol i sicrhau ein bod yn rheoleiddiwr effeithiol ac effeithlon, gwnaethom ymarfer cwmpasu i ystyried pa rannau o'n gwaith a allai gael eu hailgynllunio er mwyn gwneud prosesau'n well ar gyfer ein haelodau cofrestredig a rhanddeiliaid eraill.

Yn rhan o'r gwaith hwn, comisiynwyd adolygiad ar ein seilwaith TG a bydd canfyddiadau'r adolygiad hwnnw'n dechrau cael eu gweithredu yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun busnes.

Nodom hefyd ddau broject arall, lle mae gwaith wedi ei ddechrau a disgwyl iddo fod yn gyflawn yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun. Mae traciwr achos yn cael ei ddatblygu gan ein staff i greu dull taclusach o fonitro ein llwyth gwaith achosion, o'r adeg y mynegir gofid gan rywun, drwy'r broses benderfynu gan un o'n paneli.

Y maes arall sy'n cael ei ddatblygu yw'r porthol newydd i gyflwyno a chofnodi anghenion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sydd â'r nod o fynd i'r afael ag adborth gan aelodau cofrestredig.

Yn 2017/18 byddwn yn datblygu cynllun manwl ar gyfer y rhaglen trawsffurfio gwasanaethau ac yn rhoi cychwyn i'r cynllun hwn.

Cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio

Mae gan y CFfC chwe swyddogaeth rheoleiddio:

- Cofrestru
- Addysg (safonau ac achredu)
- Safonau (ar gyfer gweithwyr proffesiynol a fferyllfeydd cofrestredig)
- Addasrwydd ymarfer
- Arolygu
- Datblygiad proffesiynol parhaus

Mae gan nifer o'r swyddogaethau hyn raglenni gwaith penodol dros dair blynedd y cynllun busnes, fel y gwelir ar dudalen 8. Yn unol â'n strategaeth, byddwn yn parhau i ddatblygu ein swyddogaethau eraill er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn effeithlon ac yn cyflawni'r gwaith o reoleiddio.

Un peth sy'n rhoi sicrwydd am berfformiad ein swyddogaethau rheoleiddio yw'r adolygiad a wneir gan ein corff arolygu, yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Yn 2016/17 cyflawnom bob un o'r safonau rheoleiddio da a bwriadwn gynnal hynny yn 2017-2020.

Rydym yn gwybod bod y cyhoedd yn ystyried addasrwydd ymarfer yn un o'n swyddogaethau allweddol fel rheoleiddiwr gweithwyr fferyllol proffesiynol. Byddwn yn bwrw ymlaen gyda'n gwaith o sicrhau ein bod yn cynnal ymchwiliadau yn amserol i'r gofidiau a dderbyniwn a sicrhau bod ein dull yn un cymesur, yn enwedig gydag achosion a gyfeirir at banel addasrwydd ymarfer.

Mae rheoli mynediad i'r gofrestr ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn gyfrifoldeb mawr.

Byddwn yn adolygu ein prosesau i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiad i brosesu ceisiadau cofrestru yn effeithiol, yn gwneud y broses adnewyddu a thalu yn haws, a diogelu'r cyhoedd drwy ddileu aelodau a lleoliadau o'r gofrestr pan fo angen.

Byddwn yn parhau i wella ansawdd a chysondeb adroddiadau a phenderfyniadau arolygu, gan sicrhau bod y dystiolaeth sy'n cefnogi

penderfyniadau yn eglur, gyda thystiolaeth wydn i ddangos arfer da, meysydd i'w gwella neu safonau a fethwyd. Byddwn yn mireinio ein mecanwaith sicrhau ansawdd, yn cynnwys adolygu gan gyfoedion, er mwyn canolbwyntio ar, a mynd i'r afael ag, anghysondeb neu ganfyddiadau o anghysondeb.

Rydym yn mynd i adeiladu ar y gwaith o gasglu, rhannu a hybu dysgu drwy ein gweithgareddau arolygu, drwy erthyglau ar ganlyniadau arolygiadau, er enghraifft, yn Regulate.

Er mwyn bod mor effeithlon â phosibl, ac er mwyn i ni fod yn rheoleiddiwr mwy effeithiol, mae'n fwriad gennym weithio gyda rheoleiddwyr gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ar faterion a meysydd cyffredin. Byddwn yn parhau i weithio gyda 'r sector iechyd ehangach a byddwn yn adolygu a chynnal ein memoranda cyd-ddealltwriaeth gyda'r cyrff hynny. Byddwn yn adolygu'r data a gynhyrchir drwy ein gweithgareddau rheoleiddio ac yn cynllunio sut i'w ddefnyddio er mwyn i'r wybodaeth sydd gennym arwain ein sefydliad a rhannu'r hyn a ddysgwn gyda'n rhanddeiliaid.

Cynllun blynyddol 2017/18: Prif raglenni gwaith

Datblygu ein dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig, er mwyn rhoi sicrwydd ac annog gwelliant

Yn 2017/18 byddwn yn:

- datblygu ac ymgynghori ar reolau manwl wedi i ddeddfwriaeth seneddol gael ei chymeradwyo a'n pwerau'n dod i rym
- cyhoeddi ac ymgynghori ar ddiweddariadau i'n model rheoleiddio ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig, gan gynnwys:
  - cyflwyno gwelliannau pellach i'n model arolygu
  - ein cynigion ynghylch cyhoeddi adroddiadau
  - datblygu ein llif gwaith gwybodaeth ymhellach
- gweithredu'r fframwaith statudol (pwerau gorfodi) yn dibynnu ar amserlen y Rheolau
- cynnal ymgynghoriad ar ganllawiau newydd ar gyfer perchnogion, yn ymdrin â staff nad ydyn nhw'n gofrestredig mewn fferyllfeydd, yn cynnwys staff a rheolwyr fferyllol

Ymhlygiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Amcanion
• Rhaid i'r canllawiau ystyried canlyniadau ymgynghori ac ymglymu gyda grwpiau amrywiol o aelodau, y cyhoedd a'u cyrff cynrychioli • Rhaid i drefniadau arolygu fod yn hyblyg ac yn ymatebol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth • Rhaid i'n hadroddiadau arolygu fod yn hawdd cael gafael arnynt a rhaid iddynt gael eu cyhoeddi mewn fformatau amrywiol
Gweithredoedd
• Cynnal asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth (EGA) ar y cynlluniau a ddatblygir er mwyn cael mwy o hyblygrwydd mewn trefniadau arolygu • Cynnal dadansoddiad cynnar ar effaith bosibl y model rheoleiddio ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig • Ystyried effeithiau EGA ar adroddiadau arolygu, yn cynnwys hygyrchedd ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol a rheoli ceisiadau am adroddiadau mewn fformatau gwahanol

Hybu proffesiynoldeb drwy'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â nhw

Yn 2017/18 byddwn yn:

- lansio ein safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a rhoi cymorth i aelodai i wreiddio'r safonau yn eu gwaith drwy raglen gyfathrebu ac ymglymu gynhwysfawr
- cytuno, ar ôl ymgynghori, ar ganllawiau newydd ar grefydd, gwerthoedd personol a chredo
- datblygu ac ymgynghori ar ganllawiau drafft ar fynegi pryderon a chwythu'r chwiban

Ymhlygiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Amcanion
• Rhaid i'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol fod yn hawdd cael gafael arnynt ac mewn fformatau gwahanol • Rhaid i'r canllawiau fydd yn gefn i'r safonau wneud yn fawr o ganfyddiadau a geir o ymgynghori ac ymglymu gyda grwpiau amrywiol, aelodau cofrestredig, y cyhoedd a'u cyrff cynrychioli a rhaid iddynt ystyried eu hymatebion
Gweithredoedd
• Adolygu a diweddaru'r asesiad effaith ar gydraddoldeb presennol (EGA) sydd yn cyd-fynd â'r safonau a sicrhau bod y safonau a'r adnoddau cefnogol yn hygyrch • Cynhyrchu crynodeb EGA a'i ddiweddaru'n gyson • Cynnal EGA a chynllun gweithredu ar gyfer y canllawiau i grefydd, gwerthoedd personol a chredo a'r canllawiau ar fynegi pryderon a chwythu'r chwiban a'i ddiweddaru yn ystod pob cam o'r broses weithredu

Rhoi sicrwydd pellach i'r cyhoedd bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd y safonau

Yn 2017/18 byddwn yn:

- Ymgynghori ar y cynigion fydd yn rhoi sicrwydd pellach i'r cyhoedd bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd y safonau, gan ddilyn y camau canlynol:
  - y ddogfen ymgynghorol ddrafft yn cael ei chymeradwyo gan y cyngor
  - yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal
  - dadansoddi canlyniadau'r ymgynghoriad, ac adrodd arnynt
  - y cyngor yn adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad
  - y cyngor yn cytuno i'r fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus newydd (yn amodol ar yr ymateb i'r ymgynghoriad)
- paratoi i weithredu'r trefniadau diwygiedig, yn gweithio gyda grwpiau cynrychioli o'r maes fferyllol
- datblygu cynllun cyfathrebu ac ymglymu manwl i hybu dealltwriaeth ac annog pobl i fod yn rhan o'r datblygiadau a chydymffurfio â'r model newydd
- hyrwyddo'r dystiolaeth a'r hyn a ddysgwyd o'r peilot ac astudiaethau gwerthuso gyda chyrff rheoleiddio eraill

Ymhlygiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Amcanion
• Rhaid i'r fframwaith adlewyrchu amrywiol anghenion gweithwyr fferyllol proffesiynol • Rhaid i'r fframwaith adlewyrchu anghenion gwahanol wledydd Prydain drwy fod yn addasadwy ar gyfer yr arferion gwahanol yn y gwledydd hynny • Ymglymu ac ymgynghori cynhwysol yn ystod y cyfnodau datblygu polisi
Gweithredoedd
• Adolygu a diweddaru'r EGA a ddatblygwyd mewn camau blaenorol – profi, peilota a gwerthuso – gan ddefnyddio gwybodaeth o'r ymgynghoriad a'r broses ymglymu gyda phobl a sefydliadau mae'r cynigion yn effeithio arnynt

Gosod safonau hyfforddiant ac addysg cychwynnol fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol a sicrhau eu hansawdd

Yn 2017/18 byddwn yn:

- cyhoeddi safonau newydd ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol technegwyr fferyllol
- ymglymu'n bellach gyda'r sector a chychwyn ar broses ymgynghori ffurfiol ar y safonau newydd ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol fferyllwyr
- adolygu ac ymgynghori ar newidiadau i safonau addysg presgripsiynwyr fferyllol annibynnol
- gweithio gydag eraill i sefydlu llif newydd yn edrych ar ein rôl o ran sicrhau ansawdd hyfforddiant cyn-gofrestru fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ym Mhrydain. Bwriadwn:
  - ddadansoddi ymchwil i faterion allweddol ymhob agwedd ar hyfforddiant fferyllol cyn-gofrestru
  - ymglymu gyda chyllidwyr, comisiynwyr a darparwyr hyfforddiant ac addysg
  - cyhoeddi papur trafod a chynigion drafft
- dechrau adolygu ein methodoleg achredu ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, gan gynnwys:
  - gwerthuso ein digwyddiadau MFfer interim
  - ymchwilio i, a dadansoddi, dysgu o bell ar gyfer technegwyr fferyllol
  - trafod gyda chyrff dyfarnu cenedlaethol, ysgolion fferylliaeth a Cholegau Addysg Bellach

Ymhlygiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Amcanion
• Rhaid i'r safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol gweithwyr fferyllol proffesiynol wneud yn fawr o ganfyddiadau a geir o ymgynghori ac ymglymu gyda grwpiau amrywiol, aelodau cofrestredig, y cyhoedd a'u cyrff cynrychioli a rhaid iddynt ystyried eu hymatebion
Gweithredoedd
• Darparu tystiolaeth o fod wedi ystyried EGA wrth ddatblygu'r ymgynghoriad • Datblygu EGA ar gyfer safonau • Cwblhau EGA cryno i'w gylchredeg a'i ddiweddaru

Datblygu ein strategaeth data a mewnwelediad

Yn 2017/18 byddwn yn:

- gweithredu ein warws data newydd a buddsoddi mewn teclynnau dadansoddi newydd
- adeiladu ar waith cychwynnol ein grŵp ansawdd a llywodraethiant data i greu dull cyson o gasglu, rheoli a dadansoddi ein data
- parhau i gyflwyno dull cyson o gasglu data nodweddion gwarchodedig
- gweithio gyda rhanddeiliaid i gyd-ddylunio'n dull rhannu a dadansoddi data sy'n dod i law drwy ein swyddogaethau rheoleiddio
- sefydlu grŵp mewnwelediad rhyng-reolaethol
- gorffen ein hymchwil gychwynnol i'r ffactorau sy'n effeithio ar ansawdd fferylliaeth
- gweithio gyda'r tîm arolygu i ddatblygu a chyhoeddi adroddiadau mewnwelediad i brif themâu o fewn fferylliaeth, gan ddefnyddio data o'n harolygiadau ein hunain a ffynonellau eraill (pan yn bosibl ac yn briodol)

Ymhlygiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Amcanion
• Rhaid i ddata EGA gwaelodlin lywio ein gwaith
Gweithredoedd
• Parhau i gyflwyno ein dull safonol o gasglu data ar nodweddion gwarchodedig • Datblygu porthol ar gyfer data EGA y CFfC fydd yn hygyrch i staff

Trawsffurfio ein gwasanaethau a'n dulliau gweithio

Yn 2017/18 byddwn yn:

- adolygu a diweddaru'r strategaeth TG
- gweithredu trefniadau llywodraethiant y cynllun cyflawni saerniaeth TG
- gweithredu'r traciwr achos diwygiedig
- gweithredu'r porthol DPP diwygiedig
- datblygu'r cynllun trawsffurfio ehangach

Ymhlygiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Amcanion
• Rhaid i'r project trawsffurfio gwasanaethau sicrhau bod gwasanaethau newydd yn hygyrch ac yn diwallu anghenion pawb sy'n eu defnyddio
Gweithredoedd
• Gwneud EGA o'r strategaeth TG ddiwygiedig a'r cynllun trawsffurfio gwasanaethau • Cwblhau EGA cryno i'w cylchredeg a'u diweddaru

General Pharmaceutical Council
25 Canada Square, London E14 5LQ
www.pharmacyregulation.org